# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Planning Committee a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN ar Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2017 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies, Peter Evans, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Bob Murray, Merfyn Parry, Peter Scott, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch (Cadeirydd), Emrys Wynne and Mark Young

**Arsylwyr:** Y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor, Y Cynghorydd Pete Prendergast a Y Cynghorydd Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm – Lleoedd (SC), Rheolwr Datblygu (PM), Prif Swyddog Datblygu (IW), Swyddog Cynllunio (PG), Prif Beiriannydd – Priffyrdd (MP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Dim

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Cynghorydd Gwyneth Kensler – Buddiant Personol sy'n Rhagfarnu – Eitemau 5 a 6.
Y Cynghorydd Meirick Davies – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 12 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Huw Jones – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 7 ar y Rhaglen.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2017 fel cofnod cywir.*

## CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5-14)

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd yn gofyn am benderfyniad y Pwyllgor ynghyd â'r dogfennau cysylltiedig. Cyfeiriwyd hefyd at wybodaeth ategol hwyr a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen a oedd yn ymwneud â cheisiadau penodol. Er mwyn caniatáu ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd i gael siarad, cytunwyd y dylid amrywio trefn y rhaglen.

**5 CAIS RHIF 21/2017/0957- 4 BRYN ARTRO AVENUE, LLANFERRES, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais am ganiatâd i godi annedd newydd yn lle'r un presennol yn 4 Bryn Artro Avenue, Llanferres, yr Wyddgrug.

**Siaradwr Cyhoeddus –**

Dywedodd Mr Bob Barton (**yn erbyn**) y bu'n aelod o Gyngor Cymuned Llanferres a'i fod yn bresennol yn y cyfarfod cymunedol pan oedd y cais cynllunio hwn o dan drafodaeth. Dywedodd Mr Barton wrth y Pwyllgor y bu'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio rhwng 2004-2008 a'i fod yn ddiweddar wedi mynychu cwrs Cymorth Cynllunio Cymru er mwyn gloywi ei hyfforddiant. Dywedodd Mr Barton wrth yr aelodau ei fod wedi dyfynnu'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol i Ddatblygiadau Preswyl yn ei lythyr o wrthwynebiad ond nad oedd hwn wedi'i gynnwys yn y taflenni gwybodaeth glas. Ei farn ef yw bod bwlch o 300mm yn annigonol. O'i hyfforddiant blaenorol roedd wedi dysgu yr ystyrir ei bod yn bwysig gadael bwlch o 1m er mwyn gadael digon o le gerbydau'r gwasanaethau brys gael mynediad ac i symud yn ddirwystr.

**Trafodaeth Gyffredinol** - yn absenoldeb yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Martyn Holland, dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd gan yr aelod lleol unrhyw wrthwynebiad i'r cais gan ddweud y byddai yn ddelfrydol wedi hoffi gweld y bwlch o 750mm yn rhedeg rhwng yr holl eiddo ond ei fod yn gwerthfawrogi arwyddocâd y caniatâd cynllunio presennol.

Dywedodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies mai'r pellter wrth y drws cefn ar hyn o bryd yw 950mm a gofynnodd i'r swyddogion a fyddai modd ei gynyddu i 1m er mwyn caniatáu gwell mynediad yng nghefn yr eiddo.

Tynnodd y Swyddog Datblygu sylw at wybodaeth ar y daflen las, gan dywys yr aelodau at wybodaeth am y caniatâd cynllunio blaenorol ar gyfer yr un safle. Dywedodd y Swyddog datblygu wrth yr aelodau fod swyddogion yn fodlon â'r cais fel y cafodd ei gyflwyno.

**Cynnig** – Cynigodd y Cyng. Peter Evans, ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Bob Murray, y dylid cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 19
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid rhoi* ***CANIATÂD*** *yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.*

**6 CAIS RHIF 46/2017/0944- QUEENSLAND HOUSE, Y RO, LLANELWY**

Cyflwynwyd cais i gadw siediau presennol sy'n cael eu defnyddio fel gweithdy (B1 - defnydd diwydiannol ysgafn) ac at ddefnydd personol yn Queensland House, Y Ro, Llanelwy.

**Siaradwr Cyhoeddus –**

Dywedodd Mr Philip Hellyer (**o blaid**) – ei fod yn cynrychioli ei fab Mr Peter Hellyer, yr ymgeisydd. Eglurodd nad oes gan Mr Peter Hellyer unrhyw gynlluniau i ehangu ei fusnes ymhellach. Ychydig iawn o sŵn y mae'r gweithgareddau sy'n digwydd ar y safle yn ei gynhyrchu a hynny am gyfnodau byr yn unig. Byddai cynllun rheoli sŵn yn cael ei drefnu o fewn y cyfnod angenrheidiol ac i gefnogi hyn byddai'r ymgeisydd yn edrych ar y posibilrwydd o osod deunydd insiwleiddio rhag sŵn. Nid oes unrhyw waith paentio'n cael ei wneud yn yr eiddo. Byddai'r oriau gwaith cytunedig yn cael eu cadw atynt. Gofynnwyd am ganiatâd amgylchiadau eithriadol i wneud gwaith ar ddyddiau Sul a gwyliau banc ar gyfer cwsmeriaid a allent fod yn teithio cryn bellter.

**Trafodaeth Gyffredinol –** Cyflwynodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Peter Scott, ei safbwyntiau o blaid y cais. Dywedodd wrth yr aelodau, gan gydnabod gwrthwynebiadau Cyngor y Ddinas, nad oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cais. Ar ôl ymweliad â'r safle, cynigiwyd y dylid ychwanegu degfed amod a gwneud newidiadau i amodau eraill y cais. Dywedodd Cynghorydd Scott nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais yn amodol ar fodloni'r holl amodau.

Dywedodd y Cynghorydd Meirick Lloyd ei fod yn hapus i gefnogi'r cais ar ôl bod ar ymweliad â'r safle.

Rhoddodd y Rheolwr Datblygu gadarnhad pellach i'r aelodau mai'r amod oedd bod yr holl waith yn cael ei wneud o ddydd Llun i ddydd Sadwrn rhwng 08.00-18.00.

**Cynnig –** Cynigodd y Cyng. Peter Scott, ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Meirick Lloyd Davies, bod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 18
GWRTHOD - 0
YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion, yn amodol ar fodloni'r amodau a bennwyd.*

**7 CAIS RHIF 23/2016/1218- PARC CARAFANAU CAER MYNYDD, SARON, DINBYCH**

Datganodd Cynghorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol gan fod ganddo deulu wedi'u claddu ym mynwent Capel Saron a chysylltiadau hanesyddol â'r pentref.

Ar y cam hwn dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Joe Welch y byddai, fel Aelod Lleol, yn siarad am y cynnig. Penderfynodd y byddai'n gadael y Gadair ar gyfer y cais hwn.

Bu i’r Is-Gadeirydd, y Cyng. Alan James, gadeirio’r Pwyllgor Cynllunio ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynwyd cais am estyniad i Barc Gwyliau i ganiatáu lleoli 35 o Garafanau Gwyliau Sefydlog yn lle 41 o leiniau carafanau teithiol cymysg gan roi’r gorau i ddefnyddio rhan ogleddol y parc ym Mharc Carafanau Caer Mynydd, Saron, Dinbych.

**Siaradwr Cyhoeddus -** Mr Philip Jones (**o blaid**), asiant yr ymgeisydd. Dywedodd wrth yr aelodau fod y parc wedi’i sefydlu ers bron 50 o flynyddoedd a'i fod o fudd i’r economi lleol. Dywedodd mai barn yr ymgeisydd yw y byddai'r cynnig o fantais i’r ardal leol. Yn ôl yr ymgeisydd mae Asesiad o'r Effeithiau Gweledol wedi'i gwblhau. Dywedodd yr ymgeisydd pe ceid cymeradwyaeth y byddai rhagor o dirlunio’n cael ei wneud er mwyn gwella’r effeithiau gweledol. Dywedodd hefyd fod yr ymgeisydd yn ymwybodol o’r amodau a osodwyd ar y cais ac y byddai’n cydymffurfio â nhw pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

**Trafodaeth Gyffredinol -** Cyflwynodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Joe Welch, yr adroddiad gan nodi fod y cais wedi bod dan drafodaeth ers peth amser. Pwysleisiodd Cynghorydd Welch y ffaith y byddai darn gogleddol y parc yn cael ei ildio gan symud y busnes i ffwrdd oddi wrth drigolion lleol. Mynegodd y Cyngor Cymuned a phreswylwyr Saron bryderon am y modd y byddai’r Parc ei redeg, lefelau sŵn, materion draenio ar ffaith fod y Parc yn cael ei ddefnyddio i ddibenion preswyl. Cyfeiriodd Cynghorydd Welch at bolisi PSE12 sy’n ymwneud â newid defnydd safleoedd ac sy’n gwrthwynebu newid safleoedd carafanau teithiol yn safleoedd carafanau sefydlog.
Dywedodd Cynghorydd Christine Marston ei bod o’r farn ar ôl mynychu cyfarfod panel y safle y byddai natur wasgarog y parc yn manteisio o fod â'r holl garafanau ar un ochr, i ffwrdd o'r pentref.

Cyfeiriodd y Swyddog Datblygu at Amod 12 ac 13 ar y daflen wybodaeth hwyr a oedd yn cynnwys sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd y Swyddog y byddai’n rhaid gosod y systemau draenio angenrheidiol cyn gosod unrhyw garafanau sefydlog ar y safle. Cyfrifoldeb ar y perchnogion a'r rhai sy'n byw yn y parc fyddai cadw cofnod o’r nifero o arosiadau yn y parc. Byddai swyddogion yn cyfathrebu â’i gilydd ac yn sicrhau fod sefydliadau eraill yn ymwybodol o unigolion sydd o bosibl yn defnyddio'r maes carafanau fel preswylfa barhaol. O safbwynt polisi PSE12, ei bwrpas ymysg pethau eraill yw diogelu'r dirwedd naturiol a monitro effeithiau gweledol. Roedd swyddogion yn teimlo fod lefel y tirlunio sydd wedi’i gynnig yn dderbyniol. Dywedwyd wrth yr aelodau pe rhoddir caniatâd cynllunio y byddai’n rhaid i ddeiliad y drwydded wneud cais am drwydded newydd.

**Cynnig-** cynigiodd Ellie Chard, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Pat Jones, y dylid cymeradwyo’r cais yn unol ag argymhellion y swyddogion gan gynnwys yr amodau ac y byddai cais yn cynnwys y manylion am ddraenio ar y safle yn cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 14

GWRTHOD - 0
YMATAL - 2

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO'R*** *cais yn unol ag argymhellion y swyddog gan gynnwys yr amodau ychwanegol a gydag adroddiad am y draenio'n cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Cynllunio.*

**Ar y pwynt hwn (10.45 a.m.) cafwyd toriad am 15 munud**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.00 a.m.**

Ar y pwynt hwn, bu i'r Cadeirydd, y Cyng. Joe Welch, symud yn ôl i sedd y Cadeirydd a chadeirio gweddill y cyfarfod.

## 8 CAIS RHIF 01/2017/0901 – AMGUEDDFA DINBYCH, LÔN GOCH, DINBYCH

[Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler, fel yr Ymgeisydd, gysylltiad personol â'r eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra cafodd y cais ei ystyried.]

Cyflwynwyd cais am addasiadau ac estyniad i greu mynedfeydd newydd ynghyd â gwaith ategol gan gynnwys arwyddion newydd a dymchwel grisiau allanol yn Amgueddfa Dinbych, Lôn Goch, Dinbych.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Merfyn Parry argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Williams**.**

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid rhoi* ***CANIATÂD*** *yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad****.***

## 9 CAIS RHIF 01/2017/0902- – AMGUEDDFA DINBYCH, LÔN GOCH, DINBYCH

[Datganodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler, fel yr Ymgeisydd, gysylltiad personol yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra cafodd y cais ei ystyried.]

Cyflwynwyd cais am Ganiatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel grisiau allanol yn Amgueddfa Dinbych, Lôn Goch, Dinbych.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Ellie Chard argymhellion y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Huw Williams**.**

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0

YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid rhoi **CANIATÂD** yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.*

**10 CAIS RHIF 08/2017/0896- TIR YN (RHAN O ARDD) PEN Y DALAR, GODRE'R COED, CYNWYD, CORWEN**

Datganodd y Cynghorydd Huw Jones gysylltiad personol â'r eitem hon gan fod aelodau o'i deulu wedi cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cais. Penderfynodd Cynghorydd Jones nad oedd yn dymuno cymryd rhan yn y drafodaeth ac esgusododd ei hun ar gyfer yr eitem hon.
Datganodd Cynghorydd Mabon ap Gwynfor, Aelod lleol, gysylltiad personol gan ei fod wedi gweithio gyda'r ymgeisydd.

Cyflwynwyd cais i godi 1 annedd a gwaith cysylltiedig ar dir mewn rhan o ardd ym Mhen y Dalar, Godre'r Coed, Cynwyd, Corwen.

**Trafodaeth gyffredinol –** dywedodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd Mabon ap Gwynfor, ei fod yn cefnogi'r cais gan fod galw mawr am dai yn y pentref. Roedd yn cydnabod y gwrthwynebiadau a gafwyd mewn perthynas â'r cais. Yn ei farn ef byddai codi tŷ ychwanegol o fantais i drigolion lleol.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler argymhellion y swyddog i gymeradwyo'r cais, ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Ellie Chard.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD** y dylid rhoi **CANIATÂD** yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.*

**11 CAIS RHIF 15/2017/0809- TIR I'R DE O, AC YN CYNNWYS, PARC CARAFANAU PARC FARM, FFORDD GRAIANRHYD, LLANARMON-YN-IÂL, YR WYDDGRUG.**

Cyflwynwyd cais i amrywio amod 3 o ganiatâd cynllunio rhif 15/2011/0651 i ganiatáu i unedau carafán sefydlog amgen gael eu lleoli o fewn y parc carafanau estynedig sydd wedi ei gymeradwyo ar Dir i'r de o, ac sy'n cynnwys Parc Carafanau Parc Farm, Ffordd Graianrhyd, Llanarmon-Yn-Iâl, Yr Wyddgrug.

**Trafodaeth gyffredinol –** dywedodd Cynghorydd Julian Thompson-Hill ar ran yr aelod lleol Martyn Holland nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad i'r cais a'i fod yn fodlon cefnogi'r amrywiad.

Gofynnodd Cynghorydd Gwyneth Kensler bod y gair 'cyfredol' gael ei gynnwys yng ngeiriad yr amod sydd i'w osod, yn unol ag argymhelliad y swyddog.

**Cynnig –** Cynigiodd Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhelliad y swyddog ond gan gynnwys y gair ‘cyfredol’ yng ngeiriad yr amod sydd i’w osod. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Alan James.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 16
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CANIATÁU’R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion, yn amodol ar gynnwys y gair ‘cyfredol’ yn yr amrywiad i amod rhif 3 fel y’i pennir yn yr adroddiad.*

**12 CAIS RHIF 15/2017/0893- PARC GWYLIAU PARC FARM, LLANARMON-YN-IÂL, YR WYDDGRUG**

Cyflwynwyd cais i godi wal derfyn gydag arwydd ac ardal arddangos wedi’i fewnosod ym Mharc Gwyliau Parc Farm, Llanarmon yn Iâl, Yr Wyddgrug.

**Trafodaeth Gyffredinol-** Cyflwynodd Cynghorydd Julian Thompson-Hill y cais ar ran yr aelod lleol Martyn Holland. Dywedodd fod gan y Cynghorydd Holland bryderon fod yr arwydd a nodir yn y cais yn rhy fawr i ddatblygiad o'r fath.

Dywedodd Cynghorydd Merfyn Parry nad oedd ganddo unrhyw bryderon am y cais, fodd bynnag gofynnodd bod yr arwydd yn ddwyieithog gyda’r Gymraeg a’r Saesneg mewn ffont o'r un maint.
Holodd Cynghorydd Christine Marston ynglŷn â lleoliad yr arwydd arfaethedig. Gofynnodd a oedd yr arwydd yn union wrth ymyl y fynedfa’r eiddo neu ychydig o bellter oddi wrtho.

Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu y gellid cynnwys maint ffont cyfartal y ddwy iaith yn yr arwydd fel amod i'r cais. Dywedodd swyddogion eu bod yn fodlon o safbwynt materion gweledol ac o ran y briffordd na fyddai unrhyw oblygiadau negyddol i’r cais. Dywedwyd hefyd fod yr arwydd 150m oddi wrth fynedfa’r safle.

Cadarnhawyd, pe bai gwrthod y cais yn cael ei ystyried, bod pryderon aelodau parthed yr effaith ar amwynder gweledol yn sail berthnasol dros ei wrthod.

**Cynnig –** Cynigodd y Cyng. Gwyneth Kensler, ac fe’i heiliwyd gan y Cyng. Mark Young, y dylid cymeradwyo’r cais gydag amod ychwanegol yn nodi bod yn rhaid i’r ysgrifen Cymraeg a’r Saesneg fod yr un maint.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 14
GWRTHOD - 2
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid* ***CYMERADWYO’R*** *cais yn unol ag argymhelliad y swyddogion, yn amodol ar yr gynnwys yr amod ychwanegol canlynol:*
*Bod y Gymraeg a’r Saesneg o’r un maint ar yr arwydd.*

13 **CAIS RHIF 20/2017/0819- TIR LLAN, GYFERBYN Â BRON Y CLWYD, LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN.**

Cyflwynwyd cais i ddatblygu 1.24ha hectar o dir drwy adeiladu ysgol gynradd newydd gan gynnwys ardaloedd chwarae y tu allan, ardal gynefinoedd, creu mynedfa newydd i gerbydau, maes parcio gydag ardal ollwng, gwaith tirlunio, storfa finiau, tanciau LPG a chwistrellwyr ar Dir y Llan gyferbyn â Bron Y Clwyd, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

**Trafodaeth Gyffredinol -** ymddiheurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill ar ran yr Aelod lleol Hugh Evans a chyflwynodd y cais i'r aelodau. Dywedodd Cynghorydd Thompson-Hill y byddai'r Aelod Lleol wedi bod yn siarad o blaid y cynnig.
Gofynnodd Cynghorydd Huw Jones pam bod LPG wedi ei gynnwys fel rhan o'r cais.
Cynigiodd Cynghorydd Gwyneth Kensler y dylid mabwysiadu'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy ble bynnag bosib.
Roedd yr aelodau yn cytuno fod ar yr ardal angen yr ysgol a bod angen darparu llwybr diogel i gerddwyr gyrraedd yr ysgol.

Cadarnhaodd y Swyddog Datblygu nad oes nwy prif gyflenwad yng nghyffiniau'r safle. Mae cyfathrebiadau'n parhau gydag adrannau a chontractwyr ynglŷn â'r cyflenwad yn yr ardal. O ran y defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy cadarnhaodd y swyddog y byddai'n bwydo hyn yn ôl i Addysg ac adrannau dylunio er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o bryderon yr aelodau.

**Cynnig –** Cynigodd y Cynghorydd Emrys Wynne, ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd Alan James, fod y cais yn cael ei ganiatáu yn unol ag argymhellion y swyddog.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 16
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid rhoi* ***CANIATÂD*** *yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad.*

14 **CAIS RHIF 45/2017/1029- TIR YN GREENFIELD PLACE, Y RHYL**

Cyflwynwyd cais i amrywio amod 6 o ganiatâd cynllunio rhif 45/2001/0562 i ganiatáu cyfnod o 2 awr i barcio am ddim cyn codi tâl.

**Trafodaeth Gyffredinol –** mynegodd yr Aelod lleol Pat Jones a Pete Prendergast wrthwynebiad i'r cynnig i godi tâl ar ddefnyddwyr. Roedd y ddau Gynghorydd yn teimlo na fyddai arhosiad o 2 awr am ddim yn ddigon ac y dylid cyflwyno arhosiad am ddim o 3 awr. Mae trigolion lleol yn gwrthwynebu'r cais.

**Cynnig -** Cynigiodd y Cyng. Pat Jones y dylid gwrthod y cais, ac eiliwyd hynny gan y Cyng. Bob Murray, oherwydd y byddai'n niweidiol i ganol tref y Rhyl ac yn torri'r cysylltiadau â'r dref.

Cyfeiriodd y Swyddog Datblygu at yr apêl sydd ar y gweill mewn perthynas â gwrthodiad cais diweddar i godi am barcio ar y safle. Os caiff y cais hwn ei wrthod am yr un rheswm â'r cais blaenorol gall yr ymgeisydd apelio yn erbyn y penderfyniad.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 8
GWRTHOD - 7
YMATAL - 1

***PENDERFYNWYD*** *y dylid rhoi* ***CANIATÂD*** *yn unol ag argymhellion y swyddog fel y'u nodwyd yn yr adroddiad**.***

**15 ADRODDIAD I OFYN AM BENDERFYNIAD AR YR AMODAU CYNLLUNIO CYSYLLTIEDIG Â CHAIS CYNLLUNIO RHIF: 16/2017/0628**

Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am benderfyniad ar amodau cynllunio i'w gosod ar gais cynllunio rhif: 16/2017/0628.

**Cynnig -** cynigiodd Cynghorydd Mark Young y dylid gosod yr amodau arfaethedig ar y caniatâd cynllunio ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Merfyn Parry.

**PLEIDLAIS:**
CYMERADWYO - 15
GWRTHOD - 0
YMATAL - 0

***PENDERFYNWYD*** *y dylid rhoi'r amodau arfaethedig ynghlwm wrth gais cynllunio 16/2017/0628 fel sydd wedi'u pennu yn yr adroddiad.*

**16 PROTOCOL AELODAU/SWYDDOGION – CYFATHREBU AR GEISIADAU MAWR**

Rhoddwyd adroddiad gerbron yn cyflwyno dogfen brotocol fewnol newydd ar gyfer trin cynigion am ddatblygiadau mawr o fewn y Sir.

Eglurodd y Swyddog Datblygu y gall ceisiadau cynllunio mawr fod yn gymhleth ac mai nod y ddogfen brotocol newydd oedd sicrhau dull cyson o gyfathrebu y gellid ei addasu yn ôl yr angen.

Dywedodd Cynghorydd Huw Jones fod y protocol yn ei brofiad ef wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus. Gofynnodd Cynghorydd Jones sut y byddai'r ddogfen brotocol ar gael i aelodau a swyddogion.

Mynegodd Cynghorydd Gwyneth Kensler bryderon ynghylch y modd y gwnaed penderfyniad ar gais am ddiwygiadau ansylweddol.

Dywedodd y Swyddog Datblygu wrth yr aelodau pe penderfynwyd mabwysiadu'r protocol y byddai dolen yn cael ei hanfon at bob aelod ac y byddai dolen ar-lein ar gael. Byddai'r Aelodau'n cael hyfforddiant mewn sesiwn hyfforddi aelodau ffurfiol yn y dyfodol.

Cafwyd eglurhad bod meini prawf penodol wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth gynllunio ar gyfer diwygiadau ansylweddol i geisiadau cynllunio. Byddai cyfathrebu'n digwydd gydag Aelodau Lleol am ddiwygiadau anfaterol i geisiadau gan amlinellu'r cynnig a dod i gytundeb ar sut orau i wneud y penderfyniad.
Eglurwyd fod y protocol wedi'i sefydlu i annog cyfathrebu rhwng swyddogion ac Aelodau Lleol o'r cam cynharaf, drwy'r cam o gyflwyno'r cais hyd ddiwedd y datblygiad. Gall yr Aelodau gyfeirio at y protocol er mwyn gofyn cwestiynau a chodi unrhyw bryderon gyda swyddogion.

Yn dilyn pleidlais unfrydol

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi cynnwys y ddogfen brotocol ac y dylid rhoi'r ddogfen brotocol i'w defnyddio wrth ystyried cynigion ar gyfer datblygiadau mawr ar waith ar unwaith*

**17 GOBLYGIADAU NODYN CYNGOR TECHNEGOL 20: CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG - O SAFBWYNT YSTYRIED CEISIADAU CYNLLUNIO**

Rhoddwyd adroddiad gerbron er mwyn rhoi diweddariad i'r aelodau ar faterion sy'n codi wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn sgil cyhoeddiad Nodyn Cyngor Technegol 20 Llywodraeth Cymru (TAN 20): Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ym mis Hydref 2017.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Cynllunio.

Awgrymodd Swyddogion y gallai cyflwyniad TAN 20 gael effaith ar weithrediad y polisi perthnasol yn y cynllun datblygu cyfredol gan fod ei ymdriniaeth o ran asesu effeithiau ar yr iaith Gymraeg yn wahanol i gynnwys RD5. Eglurodd y Prif Swyddog Cynllunio nad yw TAN 20 yn ystyried ei bod yn angenrheidiol cynnal asesiad o effaith ar yr iaith Gymraeg wrth asesu ceisiadau o fewn ffiniau datblygiadau ar safleoedd dynodedig gan y byddai asesiad o'r effeithiau wedi cael ei wneud gan yr awdurdod fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar ffurf asesiad cynaladwyedd. Gyda cheisiadau sy'n dod o fewn y diffiniad o 'safleoedd ar hap' ac nad ydynt ar safle dynodedig, byddai asesiad iaith Gymraeg yn ofynnol o hyd.

Dywedodd Cynghorydd Emrys Wynne ei fod yn teimlo y byddai Polisi'r Cyngor yn uwchraddol i'r polisi TAN 20 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yn teimlo y gellid gweld anghysondebau yng nghynnig Llywodraeth Cymru.

Dywedodd y Swyddog Datblygu wrth yr aelodau y byddai canrannau TAN 20 a DG yn berthnasol i geisiadau nad ydynt ar safleoedd dynodedig neu o fewn ffin ddatblygu a gyda mwy na 10 annedd. Bydd cyfathrebu gyda datblygwyr yn dal i ddigwydd er mwyn annog cyflwyniad asesiadau o effaith ar yr iaith Gymraeg wrth wneud ceisiadau cynllunio perthnasol. Awgrymwyd y gallai aelodau wrth adolygu'r CDLl newydd alinio'r cynllun i weithio ochr yn ochr â TAN 20 gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau y bydd aelodau'n gwneud cais amdanynt.

Gofynnodd Cynghorydd Emrys Wynne bod aelodau, wrth adolygu'r CDLl, yn trafod yr angen am asesiadau o effaith ar y Gymraeg yng nghyd-destun TAN 20.

**Cynnig -** Cynigiodd Cynghorydd Peter Evans, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Alan James, y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyodd yr ymdriniaeth o ran asesiadau o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg i'w cynnal yn unol â TAN 20 hyd nes y bydd rhagor o drafodaethau am, ac adolygiadau o'r CDLl a pholisi RD5 wedi digwydd.

**PLEIDLAIS:**
**CYMERADWYO - 15**
**GWRTHOD - 0**
**YMATAL - 0**

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a bod TAN 20 yn cael ei weithredu gyda rhagor o drafodaethau i ddigwydd wrth adolygu'r CDLl a Pholisi RD5.*

## 18 GWOBR GYNLLUNIO'R SEFYDLIAD CYNLLUNIO TREFOL BRENHINOL (RTPI) CYMRU 2017

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth yn hysbysu'r Pwyllgor Cynllunio bod prosiect Ysgol Uwchradd newydd y Rhyl wedi ennill y Wobr Cynllunio Cymru fawreddog yng nghinio blynyddol Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol Cymru.

Rhoddodd y Cadeirydd ganmoliaeth i'r swyddogion oedd yn rhan o'r prosiect gan eu llongyfarch ar ennill y wobr.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Cododd y cynghorydd Merfyn Parry bryderon am yr apêl diweddar perthnasol i ddatblygiad Brwcws. Dywedodd fod llawer iawn o waith wedi'i wneud mewn perthynas â'r cynnig. Gofynnodd Cynghorydd Parry a allai'r aelodau gwestiynu canlyniad yr apêl.

Dywedodd y Swyddog datblygu ei bod yn bosibl i'r aelodau herio penderfyniad yr arolygiaeth ond mai gallu cyfyngedig sydd i herio ar bwyntiau cyfreithiol. O ran yr hawliadau am gostau, byddai hyn yn cael ei graffu arno cyn dod i benderfyniad. Os na ellir dod i gytundeb, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at yr Uwch Swyddog Hawliadau Costau Llys. Bydd Swyddogion Cynllunio yn dod ag adroddiad manwl gerbron y Pwyllgor Cynllunio er trafodaeth a chraffu.

Dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r swyddogion a'r aelodau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.**